Taflen Cwestiynau ac Atebion i Rieni a Disgyblion
Question and Answers sheet for parents and pupils
Diweddariad 28/09 Update

Annwyl Rieni , gwrarchodwyr a disgyblion Ysgol Uwchradd Bodedern / *Dear Parents , guardians and Ysgol Uwchradd Bodedern Pupils*

Rydym i gyd yn edrych ymlaen at ail agor yr ysgol yn raddol i bawb ,ac erbyn 10fed o Fedi bydd pawb yn ôl. Dyma gwestiynau ac atebion fydd yn gymorth i chi ddeall sut ydym wedi defnyddio canllawiau Llywodraeth Cymru er mwyn ail agor yr ysgolion yn ddiogel

We are all looking forward to gradually reopening the school for everyone, and by 10th September everyone will be back. Here are some questions and answers that will help you understand how you can use the Welsh Government's guidelines for reopening the safe passage.

Llun / Monday	*31/08/20*	*Gŵyl y Banc / Bank Holiday*	*Ysgol ar gau School closed*					
Mawrth / Tuesday	*01/09/20*	*Diwrnod Paratoi / Preperation day*	*Ysgol ar agor Staff yn unig / School open, Staff only*					
Mercher/ Wednesday	*02/09/20*	*Diwrnod Paratoi / Preperation day*	*Ysgol ar agor, Staff yn unig / school open, Staff only*					
Iau / Thursday	*03/09/20*	*Bl 7 Yr 7*	*Bl 12 Yr 12*					
Gwener / Friday	*04/09/20*	*Bl 7 Yr 7*	*Bl 12 Yr 12*	*Bl 13 Yr 13*				
Llun / Monday	*07/09/20*	*Bl 7 Yr 7*	*Bl 12 Yr 12*	*Bl 13 Yr 13*	*Bl 11 Yr 11*			
Mawrth / Tuesday	*08/09/20*	*Bl 7 Yr 7*	*Bl 12 Yr 12*	*Bl 13 Yr 13*	*Bl 11 Yr 11*	*Bl 10 Yr 10*		
Mercher / Wednesday	*09/09/20*	*Bl 7 Yr 7*	*Bl 12 Yr 12*	*Bl 13 Yr 13*	*Bl 11 Yr 11*	*Bl 10 Yr 10*	*Bl 9 Yr 9*	
Iau / Thursday	*10/09/20*	*Bl 7 Yr 7*	*Bl 12 Yr 12*	*Bl 13 Yr 13*	*Bl 11 Yr 11*	*Bl 10 Yr 10*	*Bl 9 Yr 9*	*Bl 8 Yr 8*

Bydd y cyfnod yma o hyblygrwydd yn gymorth i ni er mwyn agor yr Ysgol yn ddiogel i bawb o Fedi'r 10fed ymlaen. Ond hoffwn ymddiheuro am unrhyw anghyfleustra y mae hyn yn ei greu i chi, gan ddiolch o flaen llaw am eich cydweithrediad a'ch amynedd. Implementing a phased return will help us ensure that we can re-open the school fully on Thursday 10th September and safely for all. However, I do apologise for any inconvenience this may cause and thank you for your understanding and patience.

Taflen Cwestiynau ac Atebion i Rieni a Disgyblion
Question and Answers sheet for parents and pupils
Diweddariad 28/09 Update

Pryd fydd fy mhlentyn yn dychwelyd i'r ysgol	**When will my child be returning to school**
Iau 03/09/20 - Bl 7 a 12 Gwener 04/09/20 – Bl 7, 12, 13 Llun 07/09/20 – Bl 7, 12, 13, 11 Mawrth 08/09/20 – Bl 7 , 12, 13, 11, 10 Mercher 09/09/20 – Bl 7, 12, 13, 11, 10, 9 Iau 10/09/20 – Bl 7, 12, 13, 11, 10 , 9 ac 8	Thursday 03/09/20 – year 7 & 12 Friday 04/09/20 – Yr 7, 12, 13 Monday 07/09/20 – Yr 7, 12, 13, 11 Tuesday 08/09/20 – Yr 7, 12, 13, 11, 10 Wednesday 09/09/20 – Yr 7, 12, 13, 11, 10, 9 Thursday 10/09/20 – Yr 7, 12, 13, 11, 10 , 9 and 8
Sut fyddaf yn teithio i'r ysgol?	**How will I travel to school?**
• Bydd y bysiau yn rhedeg fel arfer , plîs cysylltwch â chyngor ynys Môn gydag unrhyw ymholiad. Bydd angen i bob disgybl wisgo gorchudd wyneb ar fysiau ysgol • Gellir hefyd anfon eich plentyn i'r ysgol neu gerdded neu feicio, os ydych chi'n dod a'ch plentyn yn y car plîs cadwch at y rheolau parcio fydd y neu le	• Buses will run as normal, please contact Anglesey council with any query. All pupils will be required to wear face cover on school buses • You can also drive your child to school or walking or cycling, if bringing your child by car please adhere to the parking rules that will be in place
Beth fydd y drefn ar gychwyn y diwrnod?	**What are the arrangements for the start of the day?**
• Bydd pob disgybl ar EU DIWRNOD CYNTAF yn mynd i'r THEATR, bydd yna groeso a chyflwyniad i'r trefniadau newydd cyn iddynt wedyn fynd i'r PARTH ar gyfer eu gwersi • Mae'n HANFODOL nad yw unrhyw blentyn sydd â symptomau neu sy'n cael canlyniad positif am COVID-19, neu sy'n byw gyda rhywun sydd â'r symptomau neu sy'n cael canlyniad positif am COVID-19, yn dod i'r ysgol	• On your FIRST day, all pupils will go to the THEATRE, a warm welcome will await and you will be given all the instructions for our safe opening. Pupils will then go to their ZONES for all lessons • It is ESSENTIAL that any child who has symptoms or who is tested positive for COVID-19, or who has someone in their household who has symptoms or has tested positive for COVID-19, does not attend the school
Beth yw Parth? • Er mwyn lleihau cyswllt cymdeithasol , rydym wedi grwpio disgyblion i grwpiau blwyddyn neu gyfnod allweddol. Golyga	**What are Zones?** • To reduce social contact, we have grouped pupils into year or key stage groups. This means that a child will not mix with any pupil from another year.

hyn na fydd plentyn yn cymysgu ag unrhyw ddisgybl o flwyddyn arall. • Mae Pob parth yn cynnwys: i) Ystafelloedd dysgu ar gyfer y flwyddyn honno, ii) Toiled penodol ar gyfer y flwyddyn honno iii) Ystafell annog, iv) Ystafell Lles v) Man dan do i fwyta ac ardal benodol tu allan • Mae gan bob parth fynedfa / allanfa ar wahân a phob un gyda man golchi dwylo ar fynediad • Mae POB ystafell ddosbarth gyda 'hand sanitiser' ar y wal , gyda phob bwrdd yn wynebu i'r blaen a man penodol i'r athro ddysgu o fewn y pellter cymdeithasol angenrheidiol • Mae POB ystafell ddosbarth hefyd yn cynnwys cyflenwad i hancesi papur ac 'anti bacterial wipes' • Bydd pob person yn GORFOD defnyddio'r orsaf golchi dwylo ar fynediad i bob ystafell.	• Each zone includes: i) Classrooms for that year, ii) Toilet specific for that year iii) Support room, iv) Welfare Room v) Indoor dining area and specific outdoor area • Each zone has a separate entrance / exit and each has a hand washing station on entry • ALL classrooms have a hand sanitiser on the wall, with each table facing the front and the designated area for the teacher to teach within the required social distance • ALL classrooms also contain a supply of tissues and anti-bacterial wipes • Every person MUST use the hand washing station on entry to each room.
Beth fydd yn digwydd i gefnogi fy mhlentyn sy'n bryderus am ddychwelyd?	**What will happen to my child if they are worried about returning to school?**
• Mae arweinwyr Lles yr ysgol wedi derbyn hyfforddiant ar gyfer cefnogi'r plant pryderus. Bydd y staff yn cefnogi pan gyfyd yr angen ac i lefel addas i'r unigolyn. • Fel mesur cefnogol ychwanegol, fe fydd gan bob Parth ystafell Lles penodol. Yma bydd aelod o staff arbenigol ar gael i gynorthwyo disgybl.	• Our lead Well Being staff have received training on how to support any child that is worried about returning. Staff will support those children when required and to the appropriate level they require. • As an added support measure we have allocated each Zone a Well Being room, where a trained member of staff will be available to support your child.
A fydd angen gwisgo masgiau?	**Will we be required to wear a mask?**
• Newidwyd y cyngor wythnos yma gan Lywodraeth Cymru , ac mae'r isod yn cael ei weithredu yn ysgolion Ynys Mon, dyma'r datganiad isod: *'Mae Cyngor Sir Ynys Môn yn parhau i weithio'n agos gydag ysgolion i sicrhau y byddant mor ddiogel â phosib pan fydd dysgwyr yn dychwelyd yr wythnos nesaf. Yn sgîl cyhoeddiad diweddar Sefydliad Iechyd y Byd a chyngor Prif Swyddog*	• The guidelines changed this week, below is a Ynys Mon statement that covers all Anglesey schools: 'The Isle of Anglesey County Council continues to work closely with schools to ensure they are as safe and Covid-secure as possible when learners return next week. In light of the World Health Organisation's recent announcement and the Welsh Government Chief Medical Officer's advice,

Meddygol Llywodraeth Cymru, rydym yn argymell yn gryf i ddefnyddio gorchuddion wyneb lle na ellir cadw pellter cymdeithasol mewn ysgolion uwchradd (e.e. sefyllfaoedd lle mae'n anodd cynnal pellter corfforol rhwng grwpiau cyswllt) fel mesur ychwanegol i leihau'r risg. Rydym eisoes yn argymell yn gryf y dylid eu defnyddio gan blant a phobol ifanc dros 11 oed sy'n defnyddio cludiant dynodedig o'r cartref i'r ysgol. • O ystyried y cyngor newydd byddwn yn gofyn i ddisgyblion wisgo gorchudd wyneb pan yn gadael y parth i fynd i'r ffreutur neu gellir eu gwisgo wrth symud o un ystafell i'r llall, neu fan ymgynull arall.	we strongly recommended the use of face coverings where social distancing cannot be maintained in secondary schools (e.g. situations where physical distancing between contact groups is difficult to maintain) as an additional risk-reducing measure. We already strongly recommend their use by children and young people above the age of 11, who use designated home-to-school transport. • In light of this new guidelines we ask that all pupils wear face covering when leaving the zone, or moving class where that requires a walk on corridors, or when going to the canteen. Or any other communal areas
Beth fydd yn digwydd os fydd fy mhlentyn neu aelod o staff yn datblygu symptomau Covid -19 yn yr ysgol?	**What will happen if my child / member of staff shows Covid -19 symptoms in school?**
• Mae'r canllawiau Cenedlaethol yn amlygu proses bendant i bob ysgol ei dilyn yn yr achos yma: • Bydd staff yn symud yr unigolyn i ardal ar wahân. • Bydd y staff sydd yn gofalu am yr unigolyn yn gwisgo PPE . • Byddwn yn cysylltu yn syth gyda'r cartref i ddod i gasglu'r plentyn / gwarchodwr o'r safle. • Disgwylir i rieni / gwarchodwyr drefnu prawf COVID i'r teulu cyfan yn y ganolfan brofi leol a sicrhau eu bod yn ynysu yn llwyr nes derbyn y canlyniadau cyn gallu dychwelyd i'r gwaith / ysgol.	• The National Guidance has specific processes to follow in such instances: • Staff will move the individual to a separate designated area. • Staff will be wearing PPE. • We will be contacting parents / carers straight away for them to be collected from the site. • Parents and carers are expected to arrange a COVID test for the whole family in the local test centre and whole family must isolate before you can return to work / school.
A fydd rhaid i fy mhlentyn wisgo gwisg ysgol lawn?	**Will my child have to wear the full school uniform?**
• Rydym yn dymuno i bawb wisgo'r wisg, ond dychwelyd i'r ysgol yw'r flaenoriaeth. Felly peidiwch a phoeni os nad ydych wedi llwyddo i brynu yr holl wisg ysgol.	• We would like all pupils to wear the uniform, but our priority at this time is for pupils to return to school. Therefor do not worry if you have not been able to buy all the uniform

YMDDYGIAD	BEHAVIOUR
• Mae pwysau ar bawb yn ystod y cyfnod yma ac ni fydd yn hawdd i'r disgyblion nac i'r staff. RHAID i ddisgyblaeth fod ar ei orau er mwyn diogelu pawb sydd ar y safle. Os nad yw ymddygiad yn ddigon da, a bydd disgybl yn gwrthod dilyn y rheolau newydd, bydd rhaid i'r ysgol ystyried yn ddwys os ydynt yn barod i ddychwelyd i'r ysgol a bydd rhaid defnyddio dulliau eraill i'w cefnogi yn y cartref.	• There will be a lot of pressure on everyone during this period and it won't be easy for the children or staff. Behaviour MUST be at its best to ensure everyone's safety. If behaviour is not good enough and they persist on refusing to follow the new rules, the school would have to consider whether they are ready to return to school and we would use other methods to support the child at home.
Beth fydd trefniadau glanhau pob Parth?	**What will the cleaning arrangements be for each zone?**
• Rydym wedi cadarnhau trefniadau gyda'n glanahwyr a'r awdurdod addysg. Bydd pob Parth yn cael ei lanhau yn drylwyr ar ol pob dydd. • Bydd gan pob Parth doiled penodol fydd hefyd yn cael ei lanhau yn rheolaidd, bydd gan bob Parth fan golchi dwylo 'hand sanitation gel' a bydd wipes ar gael • Bydd trefniadau glanhau ychwanegol ar waith	• We have finalised arrangements with our cleaners and the Local authority. Each Zone will be thoroughly cleaned after each day. • Each zone will have a toilet, which also will be cleaned regularly. Each zone will have hand sanitising stations and wipes will be readily available. • Extra cleaning will be in place
Sut fyddwch yn sicrhau pellter cymdeithasol amser Egwyl a Chinio	**How will you maintain distancing during break time and lunch time**
Mae gan bob Blwyddyn barth yn ogystal a man penodol ar gyfer bwyta cinio a chysgodi mewn tywydd garw. Bydd y trefniadau yma yn cael eu hadolygu yn gyson Bl 7 – PARTH 1 , lleoliad bwyta Ffreutur Bl 8 – Parth 2 , Lleoliad bwyta Theatr Bl 9 – Parth 3 , Lleoliad bwyta Marci 1 Bl 10 – Parth 4, Lleoliad bwyta Marci 2 Bl 11 – Parth 4 , Lleoliad Bwyta Bro Alaw Bl 12/13 – Parth 5 , Lleoliad bwyta Ystafell Gyffredin 6ed	Each Year has a zone as well as a designated area for eating lunch and shelter in inclement weather. These arrangements will be kept under review Year 7 – Zone 1, eating area Canteen Year 8 – Zone 2, eating area Theatre Year 9 – Zone 3 , eating area Marquee 1 Year 10 – Zone 4 , eating area Marquee 2 Year 11 – Zone 4 , eating area Bro Alaw Year 12/13 – Zone 5 , eating area 6th form common room
Trefniadau eraill amser Egwyl a Chinio Bydd yr amseroedd yn aros 'run fath, ond am oleiaf y bythefnos cyntaf ni fyddwn yn darparu bwyd amser egwyl. Awgrymwn yn gryf fod disgyblion yn	**Other break time and lunchtime arrangements** Timings will remain the same, but for the first two weeks we will not be providing any food or drink break time. We strongly suggest that pupils bring

dod a byrbrydau gyda nhw ar gyfer amser egwyl. ond bydd darpariaeth cinio ar gyfer pob plentyn. Mae'n debyg am y mis cyntaf fydd y fwydlen yn cynnwys brechdanau, baguette, rols, panini, rôl selsig, cwn poeth a bwrger a phasta. Bydd cynnig y math yma o fwydlen yn y lle cyntaf yn sicrhau fod pob disgybl yn derbyn eu bwyd yn gyflym. Bydd disgyblion yn ciwio tu allan i fynd i'r man gweini bwyd ac yna yn mynd yn syth i'w lleoliad bwyta. Byddwch yn talu am fwyd yn y dull arferol a bydd gorsaf golchi dwylo ar gyfer pob disgybl wedi iddynt dalu Mae croeso i chi hefyd ddod a phecyn cinio eich hun	snacks with them for break time. But lunch will be provided for all children. It is likely that for the first month the menu will include sandwiches, baguette, rolls, panini, sausage roll, hot dogs and burger and pasta. Offering this type of menu in the first place will ensure that all pupils receive their food quickly. Pupils queue outside to go to the food service area and then go straight to their dining area. You will pay for food in the usual way and there will be a hand washing station for each pupil on payment You can of course bring your own packed lunch as usual

Rydym yn edrych ymlaen at eich gweld – CROESO CYNNES YN OL

We are looking forward to see you - A WARM WELCOME BACK